

Dyddiad cyhoeddi: 26 Tachwedd 2020

Cais rhyddid gwybodaeth

Rydym yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais am fanylion pellach i'r hyn a gawsoch mewn ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch ym mis Mawrth 2020 am Transport Investigations Limited (TIL). Rydych wedi amlinellu'r cwestiynau na chafodd eu hateb yn ddigonol yn eich barn chi, ac rydym wedi ystyried eich cais yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Fe wnaethoch chi ofyn am y wybodaeth ganlynol:

- 1) A yw incwm o ddirwyon (setliadau gweinyddol) gan TIL i deithwyr a gafodd eu riportio am afreoleidd-dra tocynnau o orsafoedd Trafnidiaeth Cymru yn rhan o gynlluniau a/neu strategaeth ariannol Trafnidiaeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd i ddod? Os felly, faint yw'r incwm a ddymunir o'r ffynhonnell hon a thros ba gyfnod o amser?
- 2) Nid yw Trafnidiaeth Cymru yn rhan o'r System Cosbau. Beth yw'r rhesymau dros beidio â chymryd rhan yn y cynllun hwn? Pe bai hwn yn arfer a etifeddwyd gan gwmni Trenau Arriva Cymru, pa ddiwydrwydd dyladwy a gynhaliwyd gan Trafnidiaeth Cymru ar yr arfer hwn?
- 3) Mae gorsafoedd Trafnidiaeth Cymru wedi'u heithrio o gynllun cosbau Great Western Railway (GWR), a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2019 ar draws rhwydwaith GWR, ac eithrio De Cymru. Pam nad yw gorsafoedd Trafnidiaeth Cymru ar lwybrau GWR yn dod o dan y cynllun hwn?
- 4) A yw'r cytundeb rhwng Trafnidiaeth Cymru a GWR sy'n rheoli diffyg cyfranogiad TrC yng nghynllun cosbau GWR yn nodi neu'n rhagweld unrhyw fath o iawndal ariannol neu daliad gan TrC i GWR?

Ar ôl adolygu eich cwestiynau, gallwn ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

Mewn ymateb i gwestiwn 1:

Nid yw Trafnidiaeth Cymru yn cael incwm o ddirwyon. Nid yw staff TIL yn gweithio ar gomisiwn – penderfyniad busnes bwriadol oedd hwn i sicrhau tegwch a chysondeb.

Mewn ymateb i gwestiwn 2:

Mae'r gwasanaeth o Amwythig i Birmingham yn rhan o'r Cynllun Cosbau. Rydym wedi dewis peidio ag ehangu ein cyfranogiad ar draws ein rhwydwaith i gyd gan ein bod yn gweithio tuag at well cyfleusterau prynu tocynnau ar hyn o bryd (sef peiriant gwerthu tocynnau ym mhob gorsaf) er mwyn rhoi cyfle hawdd i deithwyr brynu tocyn, y byddwn yn eu hannog i'w ddefnyddio.

Ymateb i gwestiwn 3:

Penderfyniad cwmnïau trenau unigol yw p'un a ydynt am gymryd rhan yn y Cynllun Cosbau. Mae GWR wedi dewis cymryd rhan yn y cynllun; ac ar hyn o bryd, am y rhesymau a amlinellir yng nghwestiwn 2, nid yw Trafnidiaeth Cymru yn gwneud hynny. O'r herwydd, nid yw'r cynllun ar waith yn unrhyw orsafoedd Trafnidiaeth Cymru sydd ar rwydwaith GWR. Nid yw'n wir bod Trafnidiaeth Cymru wedi'i 'eithrio' o Gynllun Cosbau GWR; yn hytrach, dim ond mewn gorsafoedd dan

berchnogaeth cwmni trenau sydd wedi dewis cymryd rhan ynddo, y mae'r cynllun ar waith. Nid yw penderfyniad GWR i gymryd rhan yn y cynllun yn effeithio ar benderfyniad Trafnidiaeth Cymru – neu unrhyw gwmni arall – i gymryd rhan ai peidio. Yn flaenorol, roedd GWR ac Arriva wedi cytuno i beidio â chymryd rhan yn y cynllun ledled Cymru. Fodd bynnag, os bydd Trafnidiaeth Cymru yn dewis cymryd rhan maes o law, mae GWR wedi dweud y byddai'n ein cefnogi i gyflwyno'r cynllun.

Ymateb i gwestiwn 4:

Nac ydy. Fel yr amlinellwyd yn yr ateb i gwestiwn 3, does gan y cynlluniau sydd ar waith/nad ydynt ar waith ar gyfer GWR a Trafnidiaeth Cymru (yn y drefn honno) ddim oll i'w wneud â'i gilydd. Nid oes cytundeb rhwng Trafnidiaeth Cymru a GWR mewn perthynas â'r Cynllun Cosbau.

Gobeithiwn y bydd y wybodaeth hon o fudd i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru